

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
<b>DYDDIAD</b>	12 Ebrill 2018
<b>PWNC</b>	Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig
<b>PWRPAS</b>	Gwybodaeth ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig ar gyfer 2017/18.
<b>AWDUR</b>	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eisoes yn ymwybodol fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau:

- I bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi; ac
- i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

1.2 Bwriad yr Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhyngddynt â'r cyhoedd. Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y byddai'r adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt, gan alluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol.

1.3 Un ffactor pwysig i'w gadw mewn cof yw'r cyswllt rhwng yr adroddiadau blynyddol a'r papur gwyn.

1.4 I atgoffa'r Aelodau, mae'r canllawiau gwreiddiol a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn **Atodiad A**.

## 2. ADRODDIADAU BLYNYDDOL DROS Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF

2.1 Nodir isod y nifer o Aelodau etholedig a ddewisodd gyhoeddi adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf:

2012/13	8 adroddiad (peilot o'r drefn)
2013/14	26 adroddiad (gan ddefnyddio templed y tro cyntaf)
2014/15	39 adroddiad
2015/16	29 adroddiad

2.2 Gellir gweld yr adroddiadau trwy ddilyn y ddolen isod:  
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Sut-maer-Cyngor-yn-gweithio/Adroddiadau-Blynyddol.aspx>

2.3 Gweler yn amgaaedig esiampl o dempled i'w ystyried ar gyfer cynhyrchu'r adroddiadau blynyddol – **Atodiad B**.

#### 2.4 **AMSERLEN A CHAMAU NESAF**

Bwriedir dilyn yr amserlen ganlynol ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol 2017/18:

- **Erbyn diwedd Ebrill** - Bydd swyddogion y Gwasanaeth Democrataidd yn gohebu gyda holl Aelodau'r Cyngor i'w hatgoffa o'r canllawiau ynghyd â chylchredeg templed ar gyfer llunio'r adroddiad blynyddol.
- **Erbyn diwedd Mai** - Gofynnir i Aelodau gyflwyno adroddiadau drafft mewn un iaith i'r Gwasanaeth Democrataidd ar gyfer eu gwirio. Yn dilyn cytuno ar y fersiwn derfynol bydd y Gwasanaeth yn trefnu cyfieithiad o'r adroddiad blynyddol.
- **Erbyn diwedd Gorffennaf** – Cwblhau a chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol ar wefan y Cyngor.

### 3. **ARGYMHELLIAD:**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

- ystyried yr uchod a chynnig sylwadau ar y drefn
- mabwysiadu templed Atodiad B (yn unol ag unrhyw awgrymiadau / newidiadau a wneir i'r cynnwys yn ystod y cyfarfod)
- cymeradwyo'r amserlen fel a nodir yn 2.4 uchod.